| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARDAL DWYFOR - GWASANAETHAU** |
| **DYDDIAD** | **26 Mawrth 2012** |
| **TEITL** | **Cyfleusterau Caffi Palmant – Sgwâr y Farchnad, Pwllheli** |
| **PWRPAS** | **Ystyried apêl yn erbyn penderfyniad y Cyngor i wrthod rhoi caniatâd** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Argymhellir y dylai'r Cyngor orfod gwrthod caniatâd ac i'r apêl gael ei gwrthod.** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Aled Davies - Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Y Cynghorydd W. Gareth Roberts, Uwch Arweinydd Portffolio - Amgylchedd** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Bydd yr Aelodau'n cofio y gwnaed penderfyniad yng Nghyfarfod y Pwyllgor ar 19 Medi 2011 i ohirio apêl ar ran Cuisine to Eat In Bistro, 4 Sgwar y Farchnad, Pwllheli yn erbyn penderfyniad y Cyngor i wrthod caniatâd am drwydded palmant i osod cyfleusterau caffi ar y briffordd gyhoeddus. Mae'r safle arfaethedig ar gyfer byrddau a chadeiriau tu allan i Rodney Adams Antiques ac yn gyfagos i rif 4 Sgwâr y Farchnad, Pwllheli.

1.2 Penderfynwyd na ddylid gwneud penderfyniad ynglŷn â'r apêl a gofynnwyd i'r swyddogion drafod y mater ymhellach gyda'r gwrthwynebydd i ddarganfod y posibilrwydd o gyrraedd cytundeb cyfaddawdol a fyddai'n galluogi'r Cyngor i roi caniatâd. Cytunwyd hefyd y byddai dehongliad cyfreithiol pellach o'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol yn cael ei ddarparu.

## 2. Adran 115 Deddf Priffyrdd 1980 – Dehongliad a Fframwaith Cyfreithiol

2.1 Ym mis Ionawr 2012, cafodd Pennaeth yr Adran Democratiaeth a Chyfreithiol farn gyfreithiol gan Gwnsler Arweiniol sy'n sefydlu egwyddorion ar ganiatáu trwyddedau i roi cyfleusterau caffi palmant ar y briffordd. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn unol â'r cyngor a ddarparwyd gan Adran Gyfreithiol y Cyngor i'r graddau a ganlyn:-

Bod pwerau i roi caniatâd am gyfleusterau caffi palmant mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd sy'n cynhyrchu incwm yn cael ei wahardd yn effeithiol gan y darpariaethau bod yn rhaid i berchenogion a meddianwyr eiddo cyfagos roi eu caniatâd.

## 3. Trafodaethau gyda Chyngor Tref Pwllheli

3.1 Wedi Cyfarfod y Pwyllgor ar 19 Medi 2011, cynhaliwyd trafodaethau rhwng uwch swyddogion y Cyngor a Chyngor Tref Pwllheli i sefydlu a ddylid ystyried tynnu'r gwrthwynebiad yn ôl. Ni allwyd cytuno ar weithred o'r fath ac fe gadarnhaodd y Cyngor Tref eu gwrthwynebiad i'r cais hwn.

3.2 Yn ogystal, dylid nodi y byddai caniatáu'r cynnig yn groes i bolisi a meini prawf cymeradwyo Cyngor Gwynedd sy'n unol â'r farn gyfreithiol a ddarparwyd uchod.

4. **3 Stryd y Farchnad, Pwllheli**

4.1 Yn ogystal, penderfynwyd y byddai swyddogion yn ystyried y posibilrwydd o argymell caniatáu safle caffi palmant arall tu allan i Rif 3 Stryd y Farchnad, Pwllheli yn amodol ar dderbyn caniatâd ysgrifenedig gan y perchennog perthnasol.

4.2 Er gwaethaf cefnogaeth y Cyngor, mae lleoliad y safle a'r gofod sydd ar gael yn gyfyngedig ac felly ni fyddai darparu cyfleusterau caffi palmant yn bosibl nac yn ymarferol. Gan fod y safle arfaethedig wedi'i leoli union tu allan a chyferbyn â Rodney Adams Antiques, o safbwynt cyfreithiol, ni ellid rhoi caniatâd heb ganiatâd y Cyngor Tref.

**5. Argymhelliad**

5.1 Argymhellir y dylai'r Cyngor orfod gwrthod caniatâd ac i'r apêl gael ei gwrthod.